

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Rhagfyr 1af, 2015

Presennol: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

- 1505 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Heledd Jones.
- 1506 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1507 Derbyniwyd datganiad buddiant Catrin Roberts ym mater Llwybr y Cŵn.
- 1508 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 3ydd, 2015.
- 1509 Materion yn codi o'r Cofnodion a Materion y Clerc:
- i. Diweddariad ar sefyllfa'r ffos wrth Glanaber – adroddodd y Cadeirydd fod y mater mewn llaw gan y tir feddiannwr.
 - ii. Diweddariad ar Lwybr Tegid – adroddodd Huw Antur y bu Peiriannydd y Sir yn ymweld â'r safle ond nad oedd adroddiad wedi dod i law hyd yn hyn. Cytunwyd i anfon at Gyfoeth Naturiol Cymru i'w hysbysu fod angen clirio graean ochr uchaf i Bont Lliw, gan mai hyn sydd yn achosi'r gorlif sydd yn arwain at gau'r ffordd A494. Ar yr un pryd mae angen gwaith i gau'r bwlch o dan Plas Deon er mwyn atal dŵr rhag llifo i gyfeiriad Dôlfach, a chlirio graean ochr uchaf i'r bont dros y Ddyfrdwy yn y pentref.
 - iii. Diweddariad ar y gwaith wrth y Gilfach Goffa: mae'r tywydd yn rhwystr i gyflawni'r gwaith. Cytunwyd i osod peipiau efo capiau iddynt ar gyfer gosod hysbysebion lleol achlysurol yn ddiogel ac osgoi'r llinellau trydan tanddaearol sydd wrth y gilfach goffa.
 - iv. Adroddwyd fod y gwaith o glirio ym maes parcio'r fynwent wedi ei gwblhau a chytunodd nifer o Gynghorwyr i wneud y gwaith o ail-osod y postyn gât.
 - v. Diweddariad ar y gwaith ar y llochesi bws: derbyniwyd un pris hyd yn hyn.
 - vi. Trafodwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymholiad am y defnydd o'r biniau halen. Cafwyd adroddiad hefyd o gyfarfod Un Llais Cymru lle lleisiwyd pryderon cryfion am y toriad hwn. Cytunwyd i fonitro'r sefyllfa eleni ac aros am ddatblygiadau o du Un Llais Cymru a Chyngor Gwynedd.
- 1511 Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir a soniodd am hyfforddiant a drefnir gan CCG (Cartrefi Cymunedol Gwynedd) ar roi cymorth i bobl leol wneud ceisiadau am gartrefi. Adroddodd iddo dderbyn ateb gan y Gweinidog Edwina Hart bod ei swyddogion mewn trafodaethau am ymestyn y cyfnod cyfyngder teithio 20mya wrth yr ysgol gynradd. Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei waith.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

- 1512 Derbyniwyd adroddiad Huw Pierce Roberts o gyfarfod diddorol diweddar o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru. Roedd y biniau halen yn fater a drafodwyd a chafwyd hefyd gyflwyniad diddorol gan CCG.
- 1512 Ystyriwyd pryder a godwyd gan drigolion am wneud gwaith cynnal a chadw ar Lwybr y Cŵn. Cynhaliodd Liz Haynes gyfarfod ar y safle gyda pherchnogion cyfagos ac roedd dealltwriaeth rhyngddynt am yr angen i warchod y llwybr.
- 1515 **Materion ariannol** – Trefnwyd is-bwyllgor Cyllid a chafwyd adroddiad o'r sefyllfa ariannol. Cytunwyd i dalu costau swyddfa'r Clerc. Adroddwyd fod yr hysbysfwrdd ar gyfer y fynwent wedi ei harchebu.
- 1516 **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** Trafodwyd y llifogydd diweddar a achosodd gofid arbennig i drigolion Tŷ'n Ddôl a Chae Gwalia. Roedd Alan Jones Evans wedi cyfarfod â'r Peiriannydd Dewi Rowlands a chafwyd sicrhad fod pob cwlwert wedi ei lanhau gan Gyngor Gwynedd cyn i'r stormydd daro.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r syniad o osod coeden Nadolig y tu allan i'r Neuadd Bentref ond cytunwyd fod y safle yn cael gormod o dywydd garw.

- 1517 **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr a soniwyd am arwyddo'r brydles gyda Chyngor Gwynedd, defnydd o swyddfa gan weithwyr y Cyngor. Mae Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf yn ymchwilio i syniadau i hybu prynu'n lleol, datblygu'r sector busnes a chymryd drosodd rhai gwasanaethau ar ran Cyngor Gwynedd. Mae'r cwmni wedi cytuno i wneud y trefniadau lleol ar gyfer Ras yr Iaith ar 6/7/15

- 1518 **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri: Cymeradwywyd cais NP5/71/119J i uwchraddio'r mast telegyfathrebu wrth Drws y Nant.

Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth fod adroddiad byr o'r sylwadau ar y Cynllun Adnau (Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn) yn awr ar gael.

Derbyniwyd rhestr o opsiynau ar gyfer toriadau o ddiddordeb i Gyngorau Cymuned.

Heddlu: Rhannwyd manylion ymgynghoriad y Comisiynydd; nodwyd derbyn gwybodaeth am gynllun Gwarchod y Gymdogaeth.

Llywodraeth Cymru: rhodddwyd ystyriaeth i'r Ymgynghoriad ar ail drefnu llywodraeth leol a chytunwyd i'r Clerc anfon y sylwadau ymlaen.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 5/1/16 yn y Neuadd Bentref am 8.00 o'r gloch